**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

23 Chwefror 2021

Annwyl Lynne,

Heddiw rwyf wedi gosod fersiwn wedi'i diweddaru o Femorandwm Esboniadol Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).

Mae'r newidiadau i'r Memorandwm Esboniadol yn ymwneud yn bennaf â diwygio, dileu neu fewnosod darpariaethau gan welliannau Cyfnod 2. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud mân newidiadau i'r geiriad mewn mannau er mwyn rhoi eglurhad ychwanegol lle y bo'n briodol.

Pennod 1
Er bod y disgrifiad o ddiben y Bil wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r diwygiadau, mae swyddogion hefyd wedi manteisio ar y cyfle i aildrefnu'r rhestr o ddibenion i adlewyrchu trefn y darpariaethau yn y Bil.

Pennod 3
Mae'r bennod hon wedi'i diweddaru i adlewyrchu y bydd Saesneg yn orfodol o 7 oed (yn hytrach na 3 oed), ac i ddileu'r darpariaethau sydd bellach yn ddiangen, a fyddai wedi galluogi ysgolion a lleoliadau i ddatgymhwyso Saesneg i blant 3 i 7 oed.

Mae hefyd yn adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i'r gofynion yn ymwneud â chynllunio a gweithredu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Mae llinellau ychwanegol wedi'u cynnwys i helpu i egluro'r diben a'r bwriad y tu ôl i strwythur y ddarpariaeth ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Bil. Dylai hyn helpu i dawelu meddwl partneriaid allweddol ymhellach, gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru a'r Gwasanaeth Addysg Gatholig.

Gwnaed diwygiadau i bennod 3 i gyfeirio at y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo mynediad at gyrsiau astudio a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg, ac argaeledd y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyrsiau hynny; ac i gymryd i ystyriaeth y diwygiadau i'r gofynion yn ymwneud â chyfansoddiad Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog a Chynadleddau Maes Llafur Cytûn, sy'n gyfrifol am ddatblygu a mabwysiadu maes llafur cytûn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Ychwanegwyd adran at bennod 3 sy'n nodi'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil i gefnogi iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys manylion y ddyletswydd (a ychwanegwyd yng Nghyfnod 2) ar bersonau a restrir i roi sylw i iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Bil.

<u>Pennod 4</u>
Mae Pennod 4 wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r arolwg ychwanegol a gynhaliwyd yn ystod Cyfnod 1 o safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch y cynnig i ddiwygio oedran gorfodol Saesneg.

<u>Pennod 5</u>
Mae'r bennod hon wedi'i diwygio i adlewyrchu'r pwerau a'r dyletswyddau wedi'u diweddaru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil.

<u>Asesiad Effaith Rheoleiddiol</u>

Nid yw gwelliannau Cyfnod 2 y Llywodraeth, er eu bod yn arwyddocaol o ran polisi, yn rhoi baich ychwanegol ar ymarferwyr neu randdeiliaid gan fod gwaith ar y meysydd hyn eisoes yn mynd rhagddo o ran y cwricwlwm newydd, ond maent bellach yn fwy eglur ar wyneb y Bil. Felly, maent eisoes wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif cyffredinol o gostau ar gyfer y cwricwlwm newydd.


Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru gyda'r wybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid allweddol a gafodd eu hoedi rhag cwblhau eu gwaith oherwydd pandemig COVID-19. Mae Cymwysterau Cymru hefyd wedi darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru am eu proffil costau yr effeithiwyd arno gan y pandemig. Mae'r llithriant yn 2020-21 wedi'i ail-broffilio ar draws y blynyddoedd i ddod, ac fe'i adlewyrchir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Diweddarwyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yng Nghyfnod 1. Amlinellir y rhain yn y llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yr wyf wedi anfon copi ohono atoch.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i'ch sicrhau chi a'r Pwyllgor y bydd yr adnoddau ariannol sydd eu hangen i weithredu Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn cael eu darparu i alluogi ysgolion a lleoliadau i wneud y diwygiadau hyn. Bydd costau, gan gynnwys costau dysgu proffesiynol, yn parhau i gael eu llywio drwy weithio'n barhaus mewn partneriaeth, rhaglen werthuso gadarn a'r rhwydwaith cenedlaethol.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education